# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Fercher 14 Rhagfyr 2022**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Huw Jones

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd y Cyng. Walter Williams.

Nodwyd yr Is-gadeirydd ei fod yn falch iawn o weld y Cyng. Ann Williams yn mynchu'r cyfarfod, ac yn dymuno gwellhad buan iddi hi.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y cyn-gynghorydd Lilian Hughes.

**Ymddiheuriadau** – Cyngr. Dyfrig Jones, Paul Rowlinson a Rheinallt Puw.

**2. Datgan Diddordeb**
Adroddwyd fod y Cyng. Linda Brown wedi dechrau ei swydd gyda Partneriaeth Ogwen.

**3. Materion Brys**
CCTV Stryd Fawr, Bethesda – Y Clerc wedi gael dyfynbris gan Cyngor Gwynedd, a chafwyd trafodaeth am y pwnc. Y Clerc i cynnwys y mater ar agenda mis Ionawr.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Gordyfiant ar Ffordd Gerlan – Y Cyngor i gadw llygaid ar y sefyllfa.
**5.2** YGC – Sherpa Shelters – Y Clerc wedi holi os oes bosib gosod y sgrin gyda'r amserlen yn y lloches metel presennol ger yr Hen Bost. Y Clerc i gael diweddariad.
**5.3** Ffordd Llwyn Bleddyn - mynediad i fynwent Coetmor – Cadarnhawyd fod Cyngor Gwynedd yn fodlon gosod drych gyferbyn a'r mynediad.
**5.4** Siop Penrhyn Pictures - Y Clerc i fynd draw am sgwrs gyda'r perchnogion ynglyn a'r arwydd uniaith Saesneg.

**5.5** Golau Stryd Llidiart y Gwenyn – Y Clerc wedi cysylltu gyda Colin Worth, Cyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.
**5.6** Lon Bach Odro – Nodwyd fod Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd wedi bod allan i dorri'r coed, ac eu bod wedi cysylltu gyda perchnogion y tir am y waliau a'r ffensys.
**5.7** 'Parallel Bars' ar gyfer Cae Chwarae Rachub – y Clerc wedi cysylltu a Sunshine Playgrounds sawl gwaith i gael pris, ond dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi cwmni G L Jones am yr offer, ac i gael dyfynbris.
**5.8** Lloches Bws Lon Newydd – Y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am caniatad, dim ymateb hyd yn hyn.
**5.9** Contractwyr yn parcio ym Maes Bleddyn – Nodwyd fod y Clerc wedi cysylltu â Williams Homes i gofyn iddynt i ofyn wrth ei staff i beidio parcio ym Maes Bleddyn.

**6. Argyfwng Costau Byw**
Nodwyd fod y parchedig Sara Roberts wedi gofyn os oes modd defnyddio'r Gorffwysfan fel lleoliad Croeso Cynnes ar gyfer y cyhoedd. Penderfynwyd y Cyngor eu bod yn agor y lleoliad pob prynhawn o ddydd Llun i ddydd Gwener i'r cyhoedd – y Clerc i greu poster i hysbysebu.

**7. Goleuadau Nadolig**
Nodwyd fod y goleuadau newydd sydd wedi gael ei archebu eisoes i ganol y Stryd Fawr heb gael ei gosod eto eleni, nodwyd fod yno camdealltdwriaeth wedi bod gyda'r adran Goleuo Stryd yn Cyngor Gwynedd. Adroddwyd y Clerc bod angen bracedi a bocsus trydan newydd ar bob adeilad, y Clerc i ofyn i'r adran cwblhau'r gwaith cyn gynted a phosib, er mwyn gwneud yn siwr fod yr goleuadau i fyny erbyn y flwyddyn nesaf.

**8. Maes parcio Gerlan**
Dim diweddariad.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Rhagfyr 2022'
**9.1** D E Willims – Dyfynbris gosod rhisgl yn cae chwarae Pantdreiniog – y Clerc wedi trio gael prisiau gan 3 contractwr, dim ond wedi derbyn 1 dyfynbris. Os nad oes pris arall yn gael ei dderbyn, y Clerc i ofyn i D E Williams i gwbhlau'r gwaith.
**9.2** Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Cyhoeddus: Strategaeth Hybu'r Gymraeg drafft ar gyfer 2022 – 27 – penderfynwyd y bydd y Cyngor yn ymateb fel unigolion.
**9.3** Hanes Cymru a Cwricwlwm i Gymru – Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi, y Clerc i ddanfon llythyr ar ran y Cyngor.

**10. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C22/0256/13/LL**

| | |
|---|---|
| Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor | Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C22/0327/16/AC**

| | |
|---|---|
| Chwarel y Penrhyn | Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 o ganiatad cynllunio C16/1164/16/MW<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C22/0336/16/MW**<br>Chwarel y Penrhyn | Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi<br>**Penderfyniad:** Caniatau gydag amodau |
| **C22/0811/13/LL**<br>Clwb Pel Droed, Bethesda | Adeiladu maes hyfforddi pob tywydd 3G gyda ffensys a goleuadau cysylltiedig.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C22/0929/13/AC**<br>1 Tan y Gaer, Carneddi | Cais i ddiwygio amod 7 o ganiatâd cynllunio C20/0339/13/LL ar gyfer codi tŷ newydd a mynedfa er mwyn cydymffurfio a gofynion draenio dŵr budr/wyneb.<br>**Penderfyniad:** Caniatau gydag amodau. |
| **C22/0951/13/DT**<br>4 Henbarc, Carneddi | Estyniad unllawr i gefn yr estyniad ynghyd ac ffenestr dormer newydd.<br>**Penderfyniad:** Caniatau gydag amodau. |
| **C22/0901/13/LL**<br>38 Ffordd Tanybwlch | Addasu a newid defnydd modurdy presennol yn dŷ<br>**Penderfyniad:** Caniatau gydag amodau. |
| **C22/1055/13/DT**<br>5 Rhes Victoria, Bethesda | Newid defnydd o uned manwerthu i ofod byw domestig<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/1054/13/AC**<br>88 Ffordd Carneddi, Carneddi | Cais i ddiwygio amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatâd cynllunio C19/0546/13/LL ar gyfer codi tŷ newydd er mwyn caniatáu diwygiadau i'r dyluniad a gosodiad.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**Ceisiadau**

**C22/1101/13/HY**

| | |
|---|---|
| Tesco Express, Bethesda | Gosod hysbysebion wedi eu goleuo ac heb eu goleuo. **Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad cyn belled bod pob dim yn ddwyieithog |

**11. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| T Shaw | Torri Fynwent Coetmor | £420.00 |
| Archwilio Cymru | Gwybodaeth ychwanegol 2018/19 | £4000.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Nwyddau i Gorffwysfan | £114.99 |
| T Shaw | Torri llwybrau | £2564.00 |
| John Wyn Jones | Cyflog gofalwr | £318.20 |
| CThEM | Treth | £79.60 |
| Pritchards | Coeden Nadolig Gorffwysfan | £240.00 |